



Diwrnod Agored Pontio (llun: Iolo Penri)

Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru

Mawrth 2017



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

Cynnwys

Croeso	2
Cyflwyniad	2
Fformatau Amgen a Hygyrch	3
Galw am Gyllid	3
Beth yw diben arian Loteri Cyfalaf?	4
Y gwahaniaeth rydym am ei wneud	4
Pwy all wneud cais	6
Nodyn am lywodraethu	7
Beth y gallwn ei ariannu	8
Yr hyn y gallwch wneud cais amdano	10
Prynu Cyfarpar	10
Celf Gyhoeddus	11
Prosiectau Cyfalaf Bach	12
Prosiectau Cyfalaf Mawr	12
Sut i wneud cais	14
Sut i wneud penderfyniad	16
Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad	20
Os yw'ch cais yn llwyddiannus	20
Sut rydym yn monitro grantiau Loteri Cyfalaf	21
Cyngor Pellach	22
Cysylltu â Ni	22



Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen cynnwys.

Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru

Croeso

Diolch am eich diddordeb yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a'n Rhaglen Gyfalaf.

Ni yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyllid a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn rhan ganolog o fywyd y genedl.

Un o'r ffyrdd y ceisiwn gyflawni hyn yw drwy ddsbarthu cyllid cyhoeddus, ac mae'r cynllun hwn yn ariannu asedau cyfalaf. Fe'i hariennir gan y Loteri Genedlaethol.

Ers 1997 rydym wedi dosbarthu dros £125 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol tuag at brosiectau cyfalaf ledled Cymru. Yn ddiaw, mae'r arian hwn wedi trawsnewid seilwaith celfyddydau Cymru, gan fod o fudd i weithwyr creadigol proffesiynol, sefydliadau celfyddydol a'r rheini sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt.

Ein huchelgais ar gyfer ein Rhaglen Gyfalaf yw parhau i sicrhau bod y celfyddydau yng Nghymru yn gweld manteision mawr o fuddsoddiadau cyfalaf. Gwnawn hyn drwy sicrhau bod gan sefydliadau celfyddydol yng Nghymru adeiladau a chyfarpar sy'n addas at y diben sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial a dod yn fwy cadarn. Rhown flaenoriaeth arbennig i sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

Cyflwyniad

Dylai'r canllawiau hyn roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn gwneud cais am arian Loteri Cyfalaf. Dylid eu darllen ar y cyd â'n Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2012-2017 sy'n nodi'r hyn rydym am i'n harian Loteri Cyfalaf ei gyflawni.

Drwy'r canllawiau hyn siaradwn am "eich prosiect". Defnyddiwn y term hwn i ddisgrifio testun eich cais. Er enghraifft, gallai eich prosiect ymwneud â phrynu cyfarpar sain a goleuadau newydd ar gyfer theatr. Byddwn hefyd yn siarad am "canlyniadau prosiect". Defnyddiwn y term hwn i ddisgrifio'r hyn fydd yn digwydd os yw eich cais yn llwyddiannus a bod eich prosiect yn mynd rhagddo. Er enghraifft, gallai prosiect i brynu cyfarpar sain a goleuadau newydd ar gyfer theatr olygu eich bod yn gallu llwyfannu mwy o gynyrchiadau, a allai wedyn arwain at fwy o incwm.

Gall prosiectau cyfalaf fod yn gymhleth. Gallwn ddarparu canllawiau ychwanegol ar wahanol fathau o brosiectau i'ch helpu. Cyfeiriwn at y rhain drwy'r ddogfen hon.

Bydd angen i chi siarad ag un o'n swyddogion cyn gwneud cais. Gallwn eich helpu i nodi'r swyddog priodol i siarad ag ef.

Rydym wedi ceisio gwneud y ddogfen hon, ein Strategaeth Gyfalaf a'n canllawiau ychwanegol mor gynhwysfawr a chyfredol â phosibl. Os bydd angen i ni newid unrhyw ran o'r Rhaglen Gyfalaf cyhoeddwn y wybodaeth hon ar ein gwefan.

Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau bydd rhesymau penodol pam bod pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am grant neu ddefnyddio ein gwasanaethau. Os byddwch yn cael neu'n disgwyl cael unrhyw broblemau wrth wneud cais, neu fod angen help arnoch i wneud cais, neu i ddefnyddio ein gwasanaethau a chael gafael ar ein wybodaeth, [cysylltwch â ni](#) er mwyn trafod y math o gymorth sydd ei angen arnoch.

Galw am Gyllid

Gwyddom y bydd cryn alw am ein harian Loteri Cyfalaf ac yn anffodus bod llawer o geisiadau da na allwn eu cefnogi am nad oes digon o arian ar gael. Gwnawn ein penderfyniadau ar sail y wybodaeth a roddir gennych yn eich cais, yn ogystal â'n blaenoriaethau strategol, ein wybodaeth am eich sefydliad a'ch prosiectau blaenorol.

Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau strategol yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Ni allwn gefnogi popeth, felly, wrth gynllunio eich prosiect cyfalaf, dylech ystyried beth y byddech yn ei wneud os na fyddai eich cais yn llwyddiannus, neu eich bod yn cael cynnig llai o arian na'r hyn y gofynnwyd amdano.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Beth yw diben arian Loteri Cyfalaf?

Gellir defnyddio arian Loteri Cyfalaf ar asedau cyfalaf, sy'n cynnwys adeiladau, cyfarpar a cherbydau. Gallwch wneud cais am arian Loteri Cyfalaf i brynu, uwchraddio ac adnewyddu asedau cyfalaf. Mewn achosion eithriadol, pan fo prosiect yn cydweddu'n arbennig â'n blaenoriaethau strategol, gallwch wneud cais am gyllid i adeiladu asedau cyfalaf newydd.

Os ydych yn gwneud cais am arian Loteri Cyfalaf i wella ased sy'n bodoli eisoes, bydd angen i chi ddangos y bydd y buddsoddiad hwn yn ymestyn ei oes, yn cynyddu ei gapasiti neu'n gwella ei ansawdd. Er enghraifft, gallai'r theatr sy'n gwneud cais am arian Loteri Cyfalaf tuag at gyfarpar sain a goleuadau newydd ddweud y bydd y prosiect yn gwella ansawdd y lleoliad gan y bydd yn cynnig profiad gwell i gynulleidfaoedd ac yn fwy atyniadol i gwmnïau cynhyrchu.

Y gwahaniaeth rydym am ei wneud

Rydym am weld ein buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth. Felly, rhaid i'r holl gyllid a ddsbarthwn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ein helpu i gefnogi prosiectau o'r radd flaenaf, gan sicrhau bod ein cyllid yn cael yr effaith fwyaf posibl, ac o fudd i'r nifer fwyaf o bobl.

Mae ffocws ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, sef [Ysbrydoli](#), yn syml: creu, cyrraedd, cynnal. Mae hynny am fod creu celfyddyd, gan sicrhau ei fod yn cysylltu â phobl ac yn cael effaith hirdymor, yn hanfodol i'n gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Ein blaenoriaethau yw:

Thema	Amcan
Gwneud	Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu
	Cynyddu gwerth cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru
Cyrraedd	Ariannu cyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd i bobl fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt
	Meithrin creadigrwydd plant a phobl ifanc
Cynnal	Annog arloesedd, cadernid a chynaliadwyedd
	Diogelu a datblygu sail economaidd y celfyddydau yng Nghymru
	Dangos gwerth y celfyddydau
	Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Rhaid i'r grantiau Loteri Cyfalaf a rown ein helpu i gyflawni'r rhain.

Dengys ein Strategaeth Gyfalaf sut y byddwn yn targedu ein buddsoddiad drwy nodi'r blaenoriaethau cyllid penodol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. Rydym wedi eu crynhoi yma, ond dylech ddarllen y [Strategaeth Gyfalaf](#) er mwyn dysgu mwy.

1. **Datblygu'r seilwaith celfyddydol** – rydym am wella adnoddau creadigol a sefydliadol sefydliadau celfyddydol allweddol, gan eu helpu i wireddu potensial llawn eu chyfleusterau. Byddwn yn canolbwyntio ar aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru, er y caiff prosiectau strategol bwysig eu hystyried ar sail eithriadol.
2. **Cwblhau'r seilwaith cenedlaethol** – erys nifer fach o fylchau daearyddol a diwylliannol allweddol a byddwn yn ystyried prosiectau sy'n diwallu'r angen a nodwyd.
3. **Cynnal safon y seilwaith** – rydym am helpu lleoliadau a chyfleusterau sy'n bodoli eisoes i gynnal y safon, a fydd, yn ei dro, yn eu helpu i ffynnu.
4. **Gwella ymarferoldeb a chynaliadwyedd sefydliadau celfyddydol allweddol** – rydym am fuddsoddi mewn mentrau cyfalaf entrepreneuraid a masnachol sydd wedi'u cynllunio i gynyddu incwm a lleihau costau. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n cynnwys cydweithio a phartneriaethau rhwng gwahanol sefydliadau celfyddydol.
5. **Adfywio a'r diwydiannau creadigol** – byddwn yn cefnogi prosiectau creadigol sy'n rhan o raglenni adfywio ehangach sy'n helpu i ddatblygu a thyfu'r economi gelfyddydol yng Nghymru. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn natblygiad gweithfannau creadigol lle nodwyd angen clir o ran y farchnad a bod model busnes ariannol gynaliadwy
6. **Galluogi'r celfyddydau i ffynnu** – byddwn yn helpu sefydliadau i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau cywir ar gyfer yr heriau creadigol y maent wedi'u gosod i'w hunain. Ein blaenoriaeth fydd sefydliadau neu brosiectau sy'n ymwneud â chefnogi'r seilwaith celfyddydol, neu sy'n chwarae rhan allweddol yn hynny o beth, gan sicrhau bod mwy yn profi'r celfyddydau ledled Cymru.
7. **Annog prosiectau celf gyhoeddus o'r radd flaenaf** – rydym yn disgwyl i bob prosiect seiliedig ar adeilad gynnwys strategaeth gelf gyhoeddus briodol fel rhan o'i gynlluniau cyffredinol. Byddwn hefyd yn ystyried ariannu'r gwaith o gomisiynu celf gyhoeddus, os yw'n rhan o strategaeth adfywio ehangach, sydd wedi'i llunio'n dda.

Defnyddiwn y blaenoriaethau hyn i'n helpu i wneud penderfyniadau ar geisiadau am arian Loteri Cyfalaf.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Pwy all wneud cais

Dim ond sefydliadau all wneud cais am arian Loteri Cyfalaf.

Cyn datblygu eich cais, rhaid i chi sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais.

I allu gwneud cais, rhaid bod eich sefydliad, a'r prosiect rydych yn gwneud cais ar ei gyfer, fod wedi'u lleoli yng Nghymru.

Rhaid bod gennych:

- Dogfen lywodraethu ysgrifenedig fel cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cymdeithasu (oni bai eich bod yn gorff statudol, fel cyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol. Rhaid i'ch dogfen lywodraethu:
 - ddangos bod darparu gweithgareddau celfyddydol yn un o'ch amcanion
 - cynnwys cymal diddymu priodol sy'n nodi beth fyddai'n digwydd i asedau eraill eich sefydliad (ar ôl talu pob dyled a rhwymedigaeth), os na fyddai'n bodoli mwyach
- Hanes o gyflawni gweithgareddau celfyddydol ar gyfer cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr
- Polisi Cyfle Cyfartal sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu o fewn y tair blynedd diwethaf, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Rhaid i'r polisi hwn ddangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hadlewyrchu yn eich rhaglenni artistig ac mewn cynlluniau a gweithrediadau beunyddiol.
- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad lle mae angen i o leiaf ddau o bobl awdurdodi trafodion (enwir y bobl hyn yn llofnodwyr cyfrif fel arfer). Ystyr trafodion yw unrhyw godiadau arian, trosglwyddiadau neu daliadau a wneir o gyfrif y sefydliad.
- Polisi Diogelu / Amddiffyn Plant sydd hefyd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu o fewn y tair blynedd diwethaf, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Rhaid i'r polisi hwn ddangos bod materion cydraddoldeb yn cael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau a'ch gweithrediadau beunyddiol.

Ni fyddwch yn gallu gwneud cais am gyllid os ydych wedi torri unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae llawer o sefydliadau gwahanol yng Nghymru sy'n gymwys i wneud cais am arian Loteri Cyfalaf. Nid oes gennym yr adnoddau i ariannu pob un, felly rydym wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i Bortffolio Celfyddydau Cymru.

Drwy sicrhau bod ein harian Loteri Cyfalaf yn canolbwyntio ar gefnogi aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru rydym hefyd yn sicrhau y cymerir camau unedig wrth ddatblygu'r celfyddydau a sefydliadau celfyddydol allweddol yng Nghymru.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai yr ystyriwn ariannu sefydliad y tu allan i Bortffolio Celfyddydau Cymru sy'n chwarae rhan strategol yn y gwaith o fynd i'r afael â'n blaenoriaethau, neu lle rydym o'r farn ei fod o gryn bwysigrwydd strategol lleol. Os credwch fod y disgrifiad hwn yn berthnasol i'ch sefydliad rhaid i chi drafod hyn â ni cyn cynllunio cais am arian Loteri Cyfalaf.

Nodyn am lywodraethu

Rydym yn cymryd y gwaith o ddsbarthu cyllid cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam bod y ffordd rydych yn rhedeg eich sefydliad yn bwysig i ni. Rhaid i ni sicrhau bod eich sefydliad yn gadarn ac y gall reoli grant yn briodol. Ni wnawn ddyfarnu grant os nodwn risg na chaiff arian cyhoeddus ei reoli'n dda. Mae sicrhau eich bod yn bodloni gofynion cymhwysedd yn un o'r ffyrdd y gwnawn hyn. Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethu gyda'ch cais. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau eich bod yn gymwys i wneud cais i'n Rhaglen Gyfalaf a gall ein helpu i asesu eich cais.

Bydd hefyd angen i chi gyflwyno prawf bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad lle mae angen i o leiaf ddau o bobl awdurdodi trafodion gyda'ch cais.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth hon drwy ofyn i chi roi rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau nes i ni gael y wybodaeth hon a chadarnhau ei bod yn gywir.

Gallwch ddysgu mwy am gyflwyno eich dogfen lywodraethu a dangos prawf o'ch cyfrif banc yn y Nodiadau Cymorth sy'n eich helpu i lenwi'ch ffurflen gais.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Beth y gallwn ei ariannu

Mae ein Rhaglen Gyfalaf wedi'i dylunio i gefnogi ystod eang o brosiectau, ond mae rhai pethau na allwn eu hariannu.

Nid ydym yn darparu arian Loteri Cyfalaf tuag at y canlynol:

- Prynu offerynnau cerdd
- Lleoliadau sy'n eiddo i awdurdodau lleol ac a weithredir ganddynt nas nodwyd yn flaenoriaethau strategol
- Prosiectau adeiladu ysgolion (oni fyddant yn cau bwlch a nodwyd yn strategol sy'n ymwneud â darpariaeth gelfyddydol)
- Arddangosfeydd parhaol sy'n dehongli celf, crefft neu hanes

Ceir rhai mathau o brosiectau a sefydliadau rydym wedi'u hariannu yn y gorffennol sydd bellach yn cael llai o flaenoriaeth, sef:

- Cynlluniau adeiladu newydd nas nodir fel rhan o'r seilwaith cenedlaethol
- Credwn fod rhoi mwy o bwyslais ar adnewyddu a gwella cyfleusterau presennol yn ffordd o sicrhau bod arian Loteri Cyfalaf yn cael cymaint o effaith â phosibl.
- Cyfleusterau cymunedol aml-dddefnydd.
- Rydym am i'n hariannu Loteri Cyfalaf ganolbwyntio ar sefydliadau a chyfleusterau celfyddydol allweddol. Gwnawn ond ystyried ceisiadau gan gyfleusterau aml-dddefnydd os gallant ddangos budd sylweddol i'r cyhoedd sydd ond yn ymwneud â'r celfyddydau, ac sy'n cynnig gwerth am arian o ran lefel yr arian Loteri Cyfalaf y gofynnwyd amdani.

Efallai na fyddwn yn gallu ariannu'r holl gostau sydd ynghlwm â'ch prosiect cyfalaf. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallwn ei ariannu a'r hyn na allwn ei ariannu.

Enghreifftiau o gostau y gallwn eu hystyried:

- Newid a diweddarau cyfarpar, a phrynu mathau newydd o gyfarpar
- Prynu cerbydau ar gyfer cwmnïau cynhyrchu
- Gwella ac adnewyddu lleoliadau a chyfleusterau celfyddydol sy'n bodoli eisoes
- Gwella cyfleusterau a phrynu cyfarpar a wnaiff wella hygyrchedd eich lleoliad a'ch cyfleusterau'n benodol
- Ffioedd proffesiynol, ar yr amod ein bod o'r farn bod eu harbenigedd yn hanfodol i'ch prosiect, a bod penodiadau wedi'u gwneud gan ddilyn llwybr caffael priodol
- Comisiynu artistiaid neu grefftwyr i ymuno â'ch tîm dylunio
- Comisiynu artistiaid neu grefftwyr i ddylunio a chreu gwaith celf cyhoeddus wedi'i gomisiynu
- TAW na allwch ei hadennill o adran Cyllid a Thollau EM (CThEM) (sef "TAW anadferadwy"), os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW

- Cost gwerthuso eich prosiect
- Costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'ch prosiect cyfalaf
- Cost gorfod cau neu adleoli yn ystod eich prosiect cyfalaf, a chost rhaglennu eich gwaith rywle arall dros dro
- Arian wrth gefn

Enghreifftiau o gostau na wnawn eu hariannu fel arfer:

- Unrhyw gostau rydych wedi'u talu neu wedi cytuno i'w talu cyn i ni dderbyn eich ffurflen derbyn grant wedi'i llofnodi (sef "costau ôl-weithredol")
- Costau rhedeg a gorbenion, fel cost yswiriant a chynnal a chadw
- Costau gweinyddol, fel costau cyfrifyddu, marchnata ac unrhyw ffioedd a godir arnoch am help i gwblhau'r cais
- Nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys ymgynghorwyr a chontractwyr nas penodwyd drwy ddilyn llwybr caffael priodol

Rhaid i chi sicrhau bod cyllideb eich prosiect yn seiliedig ar waith ymchwil da a'i bod yn briodol i natur a maint eich prosiect cyfalaf. Ni chewch fwy o arian gennym os aiff y costau i fyny unwaith y bydd eich prosiect ar waith.

Rydym am i'n harian Loteri Cyfalaf helpu ein sefydliadau celfyddydol allweddol i ddod yn fwy cynaliadwy a chydnerth yn ariannol. Os credwch y caiff eich prosiect terfynol effaith ar eich anghenion refeniw hirdymor, rhaid i chi, a'ch holl randdeiliaid, ystyried hyn yn llawn cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu eich prosiect. Ni allwch gynnwys y costau refeniw ychwanegol hyn yn eich cais am arian Loteri Cyfalaf ac ni ddylech dybio y cyfrannwn atynt mewn unrhyw ffordd o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i ni.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Yr hyn y gallwch wneud cais amdano

Gallwch wneud cais am bedwar math gwahanol o arian Loteri Cyfalaf. Gelwir y rhain yn "elfennau". Rydym yn glir iawn o ran yr hyn rydym am ei gyflawni o bob un o'r rhain, a sut y gwnawn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Y pedair elfen yw:



Prynu Cyfarpar



Celf Gyhoeddus



Prosiectau Cyfalaf Bach



Prosiectau Cyfalaf Mawr

Defnyddiwn y term "prosiectau cyfalaf" yma i gyfeirio at geisiadau sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu. Rhown rai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y gallwch wneud cais ar eu cyfer isod.

Mae'r swm o arian y gallwch wneud cais ar ei gyfer yn wahanol ar gyfer pob elfen. Mae'r elfen rydych yn gwneud cais ar ei chyfer, a'r swm o arian, yn effeithio ar y broses gwneud cais. Cewch wybod mwy am hyn a'n gofynion ariannu partneriaeth yn ddiweddarach yn y Canllawiau hyn.

Prynu Cyfarpar

Gallwch wneud cais i'r elfen hon er mwyn newid neu uwchraddio cyfarpar, neu brynu cyfarpar newydd a wnaiff wella'r gwaith a wnewch yn barod. Mae sicrhau bod gan sefydliadau celfyddydol adnoddau o safon uchel yn hanfodol i'w galluogi i gyflawni gweithgarwch celfyddydol o'r radd flaenaf.

Yr uchafswm grant y gallwch wneud cais amdano tuag at brynu cyfarpar yw £100,000.

Disgwyliwn i geisiadau am hyd at £50,000 fod ar gyfer prosiectau cymharol fach fel prynu:

- Goleuadau a systemau sain theatr
- Cyfarpar technegol ar gyfer arddangosfeydd
- Systemau swyddfa docynnau
- Lloriau dawnsio cludadwy
- Cerbydau ar gyfer cwmnïau cynhyrchu

Bydd ceisiadau am hyd at £100,000 ar gyfer prosiectau adnewyddu cyfarpar mwy uchelgeisiol, fel:

- Newid cyfarpar sain a goleuadau ar raddfa eang
- Cyflwyno systemau taflunio digidol
- Newid cyfarpar cynhyrchu llwyfan

Celf Gyhoeddus

Gallwch wneud cais am arian Loteri Cyfalaf tuag at gost dylunio, datblygu a gweithredu gwaith celf cyhoeddus, gan gynnwys ymyriadau celfyddydol dros dro. Fodd bynnag, rhaid i'r prosiect fod yn rhan o gynllun strategol ehangach, fel strategaeth adfywio, prifgynllun, neu gynllun pensaernïol neu amgylcheddol. Mae gwaith "annibynnol" wedi'i gomisiynu nad yw'n rhan o'r fath gynllun yn llai o flaenoriaeth am arian Loteri Cyfalaf.

Rydym am gefnogi prosiectau celf gyhoeddus sy'n ymrwymedig i ansawdd. Disgwylwn i'ch prosiect gyflawni canlyniad o ansawdd uchel, sy'n benodol i safle ac yn briodol i'w gyddestun. Rydym hefyd yn disgwyl i'r prosiectau celf gyhoeddus a gefnogwn ddilyn arfer da o ran y ffordd y cânt eu rheoli a'r ffordd rydych yn dewis artistiaid a chreffftwyr ac yn gweithio gyda nhw.

Mae gennym ganllawiau ychwanegol ar brosiectau celf gyhoeddus a wnaiff eich helpu i ddeall mwy am yr hyn a ddisgwylwn.

Dilynw broses gwneud cais dau gam ar gyfer prosiectau celf gyhoeddus, sef:

- Ymchwil a datblygu
- Gweithredu

Mae'r cam ymchwil a datblygu yn bwysig am ei fod yn rhoi'r cyfle i chi greu prosiectau arloesol ac sy'n rhan gysyniadol ac ymarferol o'ch prosiect strategol ehangach.

Rydym am fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu prosiectau celf gyhoeddus. Os ydych yn cynllunio cais dylech drafod eich prosiect â ni cyn gynted â phosibl. Rhaid i chi siarad â'n Rheolwr Portffolio sy'n gyfrifol am gelf gyhoeddus cyn cyflwyno eich cais.

Yr uchafswm grant y gallwch wneud cais amdano fel arfer yw £100,000. Gallwn ystyried ceisiadau dros £100,000 os ystyrir bod y prosiect yn strategol bwysig.

Os ydych yn gwneud cais am grant ymchwil a datblygu celf gyhoeddus yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw £10,000.

Prosiectau Cyfalaf Bach

Gallwch wneud cais i'r elfen hon ar gyfer prosiectau adeiladu bach annibynnol. Disgwyliwn i'r prosiectau hyn helpu sefydliadau celfyddydol i gynnal eu safonau darparu a'u helpu i ymateb i gyfleoedd newydd. Efallai y byddant yn eu helpu i weithredu ar lefel uwch o ran capasiti, i gyflawni eu potensial neu i wella ansawdd y gwaith a wneir ganddynt; gall hyn oll gyfrannu at eu cadernid yn y dyfodol.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y gallech wneud cais amdanynt:

- Addasu ystafelloedd taflunio ffilmiau er mwyn gallu defnyddio technolegau newydd
- Adnewyddu cyfleusterau arlwyo
- Uwchraddio ardaloedd blaen y tŷ
- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni a mentrau amgylcheddol eraill
- Gwella eich adeilad a'ch cyfleusterau a fydd yn gwella ei hygyrchedd yn benodol

Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano tuag at Brosiect Cyfalaf Bach yw £100,000.

Prosiectau Cyfalaf Mawr

Gallwch wneud cais i'r elfen hon am gyllid tuag at brosiectau adeiladu mawr. Dim ond nifer fach o geisiadau a fydd ar gyfer yr elfen hon, a byddant ar gyfer prosiectau o bwysigrwydd strategol sylweddol, er enghraifft, cau bylchau cenedlaethol mewn darpariaeth.

Bydd ceisiadau ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr yn £100,000 neu fwy. Byddwn yn chwarae rhan flaenllaw wrth gynllunio a datblygu Prosiectau Cyfalaf Mawr, a thrafodwn yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Mae gennym ganllawiau ychwanegol ar Brosiectau Cyfalaf Mawr sy'n nodi'r broses a ddilynwn ar gyfer y prosiectau hyn a'n gofynion. Bydd y rhain yn eich helpu gyda'ch gwaith cynllunio.

Cyllid Partneriaeth

Rydym am sicrhau bod ein harian Loteri Cyfalaf yn cael cymaint o effaith â phosibl, ac rydym am ei weld yn ategu ac yn gwella'r cyllid sydd ar gael i'r celfyddydau o ffynonellau eraill. Bydd y fath gamau unedig yn helpu i atgyfnerthu cadernid ariannol ein sefydliadau celfyddydol allweddol.

Byddwn yn disgwyl i chi ategu'r cyfraniadau at eich prosiect o'ch cyllid chi'ch hun, a phartneriaid ariannu eraill. Pan lwyddwch i gael arian o ffynonellau eraill mae'n dangos i ni fod ymrwymiad eang i'ch prosiect. Mae hefyd yn dangos bod rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod eich prosiect yn diwallu angen ac y bydd hefyd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Pan aseswn eich cais byddwn yn ystyried a yw'r cyllid a ddarperir gan ffynonellau eraill yn briodol i natur a maint eich prosiect. Rydym yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau a ariennir o amrywiaeth o ffynonellau, yn hytrach na'r rhai sy'n ein gweld fel y prif gyllidwr.

Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 70% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Mae'n debygol y bydd ein cyfraniad gryn dipyn yn llai yn y rhan fwyaf o achosion. (Mae hyn bellach yn cynnwys prosiectau a wnaiff wella hygyrchedd eich lleoliad yn benodol).

Os ydych yn gwneud cais i ni ar gyfer astudiaeth dichonoldeb neu gyllid datblygu, yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 75% o gyfanswm y costau cymwys.

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer prosiect ymchwil a datblygu celf gyhoeddus yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 75% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer prosiect aml-ddefnydd a'n bod wedi cytuno ei fod o bwys strategol ac y bydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn unig, yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 50% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Gall ffynonellau eraill o gyllid gynnwys y canlynol:

- Incwm a enillir
- Eich cronfeydd eich hun, er na all y rhain ddod o unrhyw un o'n ffrydiau ariannu eraill
- Incwm o godi arian ac apeliadau cyhoeddus
- Cyfraniadau ariannol gan bartneriaid eraill yn y prosiect, fel prifysgolion ac awdurdodau lleol
- Cronfeydd buddsoddi a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd
- Grantiau gan sefydliadau eraill fel ymddiriedolaethau
- Arian Loteri arall (er bod yn rhaid i o leiaf 10% o gyllid eich prosiect ddod o ffynhonnell nad yw'n ymwneud â'r Loteri)
- Cyfraniadau mewn nwyddau o hyd at 10% o gyfanswm cost y prosiect (e.e. gwaith gwirfoddolwr di-dâl, a rhoi tir, adeiladau neu gyfarpar, ar yr amod bod eu gwerth wedi'i bennu'n briodol. Nid yw gostyngiadau yn gymwys)

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Sut i wneud cais

Rydym am i'r broses o wneud cais am arian Loteri Cyfalaf fod mor syml â phosibl. Rydym wedi teilwra'r ffordd rydych yn gwneud cais fel ei bod yn briodol i'ch math o brosiect a'r swm o arian rydych yn gofyn amdano. Byddwn ond yn gofyn am y wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad.

Rhaid i chi siarad ag un o'n Swyddogion cyn cyflwyno eich cais. Gallwn eich helpu i nodi'r Swyddog priodol i siarad ag ef.

Nid oes gan y Rhaglen Gyfalaf unrhyw derfynau amser. Ar yr amod eich bod wedi trafod eich prosiect gyda swyddog, cewch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg.

Sut i wneud cais am fwy na £50,000

Os ydych yn gwneud cais am fwy na £50,000 tuag at brosiect cyfalaf neu brosiect celf gyhoeddus, defnyddiwn broses dau gam er mwyn gwneud penderfyniad ar eich cais. Gwnawn hyn fel y gallwch brofi a ydym yn debygol o gefnogi eich prosiect heb orfod treulio llawer o amser yn datblygu cais llawn. Mae hefyd yn ein helpu i gynllunio a dyrannu ein hadnoddau'n briodol.

Yn gyntaf gofynnwn i chi gwblhau Ffurflen Gofrestru syml ar gyfer y Prosiect. Rhydd hyn rywfaent o wybodaeth sylfaenol am eich prosiect. Bydd ein Pwyllgor Cyfalaf yn edrych ar eich ffurflen ac yn ystyried ansawdd eich cynnig a ph'un a yw'n cydweddu'n dda â'n blaenoriaethau strategol. Os bydd eich prosiect yn bodloni ein gofynion, fe'ch gwahoddir i wneud cais am gyllid.

Cofiwch nad yw cael gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu y dyfernir cyllid.

Sut i wneud cais ar gyfer Prosiect Cyfalaf Mawr

Prosiectau Cyfalaf Mawr yw'r mwyaf cymhleth i'w datblygu a'u hasesu. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Cyfalaf i'ch gwahodd i wneud cais am gyllid, bydd eich prosiect yn destun o leiaf dri cham cyn y gallwch ddechrau. Yn gyntaf byddwch yn cwblhau astudiaeth dichonoldeb, cyn mynd ymlaen i ddatblygu manylion eich prosiect, ac yna cais tuag at y gost adeiladu ei hun. Defnyddiwn Gynllun Gwaith 2013 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) i lywio'r broses hon.

Mae ein profiad yn dangos bod dilyn y fath gamau yn annog arfer gorau wrth gynllunio, caffael, rheoli a chyflawni Prosiectau Cyfalaf Mawr. Byddwn yn adolygu eich prosiect ar bob cam er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ein meini prawf a'n blaenoriaethau strategol.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ar gyfer Prosiect Cyfalaf Mawr yn ein canllawiau ychwanegol.

Pa mor aml y gallwch wneud cais

Gallwch wneud un cais i'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn galendr. Gallwn wneud eithriad os ydych yn datblygu Prosiect Cyfalaf Mawr ac yn gwneud cais am gyllid tuag at astudiaeth dichonoldeb neu grant datblygu.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Sut i wneud penderfyniad

Rydym yn asesu pob cais cymwys yn erbyn yr un meini prawf. Mae'r meini prawf yn ein helpu i ystyried y prif faterion sy'n ymwneud â'ch prosiect, sef:

- Ein blaenoriaethau o ran cyllid
- Diwallu angen a nodwyd
- Bod o fudd i'r cyhoedd
- Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch
- Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd
- Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus
- Ariannu prosiect llwyddiannus
- Cyflawni prosiect o ansawdd uchel
- Rheoli risg

Mae'r rhain yn themâu eang sy'n berthnasol i bob cais am arian Loteri Cyfalaf. Bydd y ffordd yr ymdrinnir â'r rhain yn wahanol o un prosiect i'r llall, ond bydd angen i chi ystyried pob un ohonynt wrth gynllunio eich prosiect.

Nodir enghreifftiau o'r materion rydym yn eu hystyried ar gyfer pob un o'r meini prawf isod. Dylech gofio nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac ystyrir materion eraill os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect. Hefyd nid oes rhaid ateb yr holl gwestiynau hyn yn eich cais.

Ein Blaenoriaethau o ran Cyllid

- I ba raddau y bydd eich prosiect yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau cyffredinol fel y nodir yn ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau, sef *Ysbrydoli?*
- Pa mor dda y mae eich prosiect yn diwallu anghenion ein Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2012-2017?

Diwallu Angen a Nodwyd

- A yw'ch prosiect yn helpu i ddiwallu nodau ac amcanion eich sefydliad?
- Sut rydych wedi dangos bod angen eich prosiect? A yw'n darbwylo?
- Â phwy rydych wedi ymgynghori i bennu'r angen am eich prosiect, a beth yw canfyddiadau eich ymgynghoriad?
- A yw'ch prosiect yn cyfrannu at gyflawni cynllun strategol ehangach, er enghraifft prifgynllun, Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) neu strategaeth adfywio wedi'i harwain gan yr awdurdod lleol?
- Pa mor dda mae'ch prosiect yn diwallu'r anghenion a nodwyd gennych?
- Pa mor gryf yw eich achos busnes: a yw'r angen rydych wedi'i nodi ar gyfer eich prosiect yn cyfiawnhau'r swm o arian rydych yn gofyn amdano?

Cyflawni prosiect o ansawdd uchel

- Sut y gwnewch sicrhau bod eich prosiect yn addas at y diben ac yn cyflawni canlyniad o ansawdd uchel?
- Pa ymchwil a wnaed gennych er mwyn sicrhau bod y cyfarpar rydych am ei brynu yn diwallu'r angen a nodwyd gennych?
- Ar gyfer prosiectau cyfalaf, sut y gwnewch sicrhau bod eich prosiect wedi'i ddylunio'n dda?
- I ba raddau yr ystyriwyd ymarferoldeb eich prosiect cyfalaf:
 - a yw'n briodol i'w ddefnydd arfaethedig?
 - a yw'n sicrhau'r mynediad annibynnol mwyaf posibl i bobl anabl ac yn dangos parodrwydd i bennu safonau ymarfer uchel o ran hygyrchedd sy'n mynd y tu hwnt i ddilyn safonau cyfreithiol gofynnol?
 - a yw'n cynnig defnydd effeithiol ac arloesol o le?
- I ba raddau yr ystyriwyd effaith eich prosiect cyfalaf:
 - a yw'n cydweddu â'i gyd-destun cymdeithasol a threfol neu wledig?
 - a yw ei ffurf a'i gymeriad wedi'u dylunio'n dda?
 - Ym mha ffordd mae'n arloesol?
- Ar gyfer prosiectau cyfalaf, a ddangosir y bodlonir rheoliadau adeiladu a deddfwriaeth berthnasol?
- I ba raddau mae'ch sefydliad wedi ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gynllunio a chyflawni eich prosiect?
- I ba raddau mae'ch sefydliad wedi ystyried perfformiad amgylcheddol adeiladau a chyfarpar wrth gynllunio a chyflawni eich prosiect?
- Pa mor dda rydych wedi ystyried cynnwys gwaith celf yn eich prosiect cyfalaf mawr?

Bod o Fudd i'r Cyhoedd

- Sut y bydd eich prosiect o fudd i bobl Cymru?
- Sut y bydd eich prosiect o fudd i'r rheini sydd eisoes yn mwynhau eich gweithgareddau celfyddydol, naill ai fel aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr?
- I ba raddau bydd eich prosiect yn helpu cynulleidfa ehangach i fwynhau eich gweithgareddau celfyddydol, neu'n annog pobl newydd i gymryd rhan?
- Sut y bydd eich prosiect yn helpu gweithwyr proffesiynol creadigol fel artistiaid a chrefftwyr i ddatblygu a chyflwyno eu gwaith?
- Sut y bydd eich prosiect o fudd i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr?
- Sut y bydd eich prosiect yn codi safonau'r gweithgareddau celfyddydol a gyflawnir gennych a / neu'n cynnal eu rhagoriaeth artistig?
- Sut y bydd eich prosiect yn cynnig profiad o ansawdd gwell i'r rheini sy'n cymryd rhan yn eich gweithgareddau celfyddydol?
- I ba raddau yr ystyriwyd sicrhau mynediad priodol i bobl anabl?
- Pa mor dda yr ystyriwyd anghenion pobl anabl wrth ddylunio cyfleusterau newydd?

- I ba raddau rydych wedi ystyried marchnata canlyniadau eich prosiect er mwyn sicrhau'r ymwneud ehangaf posibl â'ch gweithgareddau celfyddydol?

Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch

- Pa fesurau a gymerasoch i sicrhau bod eich prosiect yn diwallu gofynion y Ddeddf Gydraddoldeb? Er enghraifft, a ymgymerasoch ag archwiliad hygyrchedd diweddar a sut yr ymgorfforwch unrhyw argymhellion yn eich cynnig?

Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad yn sefydlog ac wedi'i reoli'n dda, o ran staff a'r corff llywodraethu?
- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad yn ariannol gadarn a bod eich materion ariannol yn cael eu rheoli'n dda? (Bydd sefydliadau mwy o faint yn dangos hyn yn eu Cynllun Busnes).
- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect terfynol?
- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi ystyried goblygiadau arian refeniw eich prosiect terfynol yn llawn?
- A all eich sefydliad dalu costau yswiriant a chynnal a chadw blynyddol?
- I ba raddau mae'ch sefydliad wedi ystyried effaith y prosiect ar ei gydnerthedd ariannol? A ydych wedi dangos y gallai eich prosiect wneud un o'r canlynol:
 - galluogi eich sefydliad i gyflawni ei botensial
 - cynhyrchu incwm
 - mwyhau incwm neu dorri costau
 - ei gwneud yn bosibl i roi partneriaethau a mentrau cydweithredol ar waith
 - ei gwneud yn bosibl i roi mentrau newydd ar waith.
- A fydd eich prosiect yn helpu eich sefydliad i achub ar gyfleoedd ariannu o ffynonellau eraill?

Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad yn gallu cyflawni eich prosiect yn llwyddiannus?
- A ydych wedi dangos bod gan eich sefydliad y sgiliau, y profiad a'r amser i reoli'r prosiect yn effeithiol?
- A yw'ch sefydliad wedi dangos sut y bydd yn dwyn ynghyd dîm proffesiynol crefftus a phrofiadol priodol i gyflawni eich prosiect? A gaiff y tîm proffesiynol hwn ei recriwtio'n briodol, gan ddilyn prosesau tendro cystadleuol neu Ewropeaidd os oes angen?
- Os ydych yn cyflawni eich prosiect mewn partneriaeth, a yw rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad dan sylw'n eglur?

- A oes cynllun clir i adrodd ar gynnydd i'ch corff llywodraethu a'ch cyllidwyr, ac i fonitro a gwerthuso eich prosiect ar ôl ei gwblhau?
- Sut y gwnaiff eich sefydliad sicrhau bod eich prosiect wedi'i reoli'n dda yn ariannol?
- A yw amserlen eich prosiect yn glir ac yn gyflawnadwy?

Ariannu prosiect llwyddiannus

- A yw'ch cyllideb wedi'i hystyried yn dda ac yn briodol i faint a natur y prosiect rydych yn ei gyflawni?
- A yw'r cyllid arall sydd ei angen arnoch er mwyn cwblhau eich prosiect yn ei le? Os nad yw, a oes gan eich sefydliad gynllun realistig i sicrhau cyllid arall?
- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi codi cymaint o arian â phosibl ar gyfer eich prosiect o ffynonellau eraill?
- A yw'r lefel o gyllid rydych yn gofyn amdani o'n Rhaglen Gyfalaf yn briodol i'ch prosiect a'ch canlyniadau arfaethedig?

Rheoli risg

- I ba raddau mae'ch prosiect wedi nodi a chofnodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect?
- I ba raddau mae'ch sefydliad wedi cymryd y camau priodol i reoli risg?

Mae gan ein Swyddogion amrywiaeth o arbenigeddau a diddordebau strategol, a byddwn yn defnyddio eu harbenigedd i'n helpu i wneud penderfyniad am eich cais. Er enghraifft, bydd y Rheolwr Portffolio sy'n gyfrifol am gelf gyhoeddus yn ymwneud ag asesu ceisiadau am gyllid tuag at gelf gyhoeddus a phenderfynu arnynt.

Ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr, a'r rheini sy'n arbenigol iawn eu natur, byddwn yn cynnwys aseswyr allanol er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad am eich cais. Defnyddiwn aseswyr allanol i ddarparu cyngor gwrthrychol annibynnol ar feysydd arbenigol penodol lle mae angen cael mwy o arbenigedd proffesiynol. Gallwch ddarllen mwy am aseswyr allanol yn ein canllawiau ychwanegol ar Brosiectau Cyfalaf Mawr.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad

Os ydych yn gwneud cais am hyd at £50,000 tuag at brynu cyfarpar, Grŵp Swyddogion fydd yn penderfynu ar eich cais. Bydd y Grŵp yn ystyried ceisiadau bob deufis.

Gwneir penderfyniadau am bob cais arall ar gyfer cyfarpar, prosiectau celf gyhoeddus a phrosiectau Cyfalaf Bach gan Bwyllgor Cyfalaf. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf hefyd yn ystyried pob cais ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr. Os gwneir cais am fwy na £250,000, bydd y Pwyllgor yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad. Os yw am lai na hyn, y Pwyllgor Cyfalaf fydd yn gwneud y penderfyniad.

Ceir gwybodaeth am aelodau'r Cyngor ar ein gwefan.

Os yw'ch cais yn llwyddiannus

Cewch gynnig grant ffurfiol drwy e-bost sy'n cadarnhau lefel y grant ac unrhyw amodau ychwanegol (er enghraifft cadarnhad ysgrifenedig o gyllid partneriaeth). Byddwn hefyd yn anfon ein hamodau grant safonol atoch ynghyd â'n gofynion achredu a brandio.

Ni allwn wneud unrhyw daliadau nes i chi dderbyn ein hamodau grant safonol. Os bydd eich cais am gyllid tuag at Brosiect Cyfalaf Mawr yn llwyddiannus bydd angen i chi gytuno ar gontract cyfreithiol gyda ni. Gwnawn weithio gyda chi er mwyn i hyn ddigwydd.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus byddwn yn anfon llythyr atoch drwy e-bost sy'n egluro'r prif resymau dros ein penderfyniad. Byddwch yn gallu trafod hyn gydag aelod o staff os dymunwch wneud hynny.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Sut rydym yn monitro grantiau Loteri Cyfalaf

Mae'n ofynnol i ni fonitro prosiectau er mwyn sicrhau bod arian Loteri yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, a'i fod o fudd i gynifer o bobl â phosibl. Gwnawn hyn mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar natur a maint eich prosiect, a gall rhai prosiectau gael eu monitro'n agosach nag eraill:

- Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn gofyn i chi am ei effaith, ac i ba raddau y mae wedi bodloni eich disgwyliadau. Os ydych yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru, caiff hyn ei gynnwys wrth i ni fonitro eich sefydliad a'i weithgareddau'n rheolaidd.
- Ar gyfer prosiectau tymor hwy, byddwn yn gofyn sut mae'ch prosiect yn mynd rhagddo ar adegau rheolaidd tra'i fod ar waith
- Ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr, byddwn yn penodi swyddogion monitro annibynnol i'n cynghori ac i gefnogi tîm eich prosiect. Byddwn fel arfer yn cwrdd â chi unwaith y mis tra bod y prosiect yn mynd rhagddo.

Efallai y byddwn yn parhau i fonitro eich prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau, tra bod eich sefydliad yn parhau i ddefnyddio'r cyfarpar neu'r adeilad y gwnaethom gyfrannu ato.

Os na fyddwch yn bodloni ein hamodau monitro efallai y bydd angen i chi ad-dalu ein harian Loteri Cyfalaf. Mewn achosion eithafol, gall fod angen i ni gymryd camau cyfreithiol.

Canllawiau ychwanegol ar y Rhaglen Gyfalaf

Gallwn ddarparu canllawiau ychwanegol i chi ar y canlynol:

- Prosiectau Cyfalaf Mawr
- Celf Gyhoeddus
- Cofrestru Prosiect

Mae'r rhain ar gael ar ein [gwefan](#).

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

Cyngor Pellach

Gallwch ddod o hyd i gyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol ar ein [gwefan](#) gan gynnwys:

- Ein Cyhoeddiadau:
 - *Lle Cyfartal*, sef canllaw ar arfer gorau i ddarparwyr y celfyddydau am faterion anabledd
 - *Pecyn Cymorth i Ddatblygu Dwyieithrwydd yn y Celfyddydau*
 - *Canllaw Syml, 10 Cam, i Ysgrifennu eich Cynllun Marchnata a Chyfathrebu*
 - *Arweiniad Cydraddoldeb 2015*, sy'n rhoi syniadau ymarferol ar sut i gynyddu amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n profi'r celfyddydau (cynulleidfaoedd) a'r rhai sy'n helpu i greu'r celfyddydau (crewyr)
 - *Arweiniad i Gynllunio Busnes a Thempled*
 - *Taflen Wybodaeth Llywodraethu*
- Gwybodaeth am ein rhaglenni cyllid eraill
- Ein cyhoeddiadau corfforaethol, strategol a gwybodaeth diweddaraf
- Data ymchwil
- Enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd gennym
- Dolenni i ffynonellau cyllid posibl eraill
- Cyfeiriadur y Celfyddydau
- Ein Cylchlythyr a'n ffrwd Newyddion

Cysylltu â Ni

Ffôn: 0845 8734 900 (rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)

SMS: 07797 800 504 (codir eich cyfradd rhwydwaith safonol am negeseuon)

E-bost: gwybodaeth@celf.cymru

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)